Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Gwynedd Archaeological Trust

(English below)

Cofnodi Cofebion Rhyfel Byd Cyntaf - Cyfarwyddiadau

Nod y prosiect hwn yw sicrhau cofnod ffotograffig a disgrifiad byr o'r holl gofebion ac adeiladau godwyd i anrhydeddu'r aberth wnaethpwyd gan gymunedau Gwynedd a Môn yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Gan fod y cofebion yn gallu amrywio'n sylweddol o safbwynt cymeriad, o gofebion bychain i adeiladau mawr, nid yw'n bosib eu cofnodi i gyd yn yr un ffordd. Argymhellir cofnodi'r wybodaeth ganlynol ar gyfer unrhyw gofeb rydych yn gyfarwydd â hi:

1. Enw'r Gofeb (strwythur neu adeilad).
2. Lleoliad a Chyfeirnod Grid (CGC) os yn bosib (gellir sicrhau hwn unai trwy gyfrwng GPS neu o'i leoliad ar Fap Ordnans).
3. Dylid llunio disgrifiad o'r strwythur, gan nodi'r deunyddiau ac unrhyw nodweddion arbennig. Nid oes angen copïo arysgrifau neu restrau enwau gan y dylai rhain fod yn amlwg o'r ffotograffau.
4. Ffotograffau'r adeilad / heneb. Dylid tynnu lluniau'r strwythur neu adeilad o o leiaf dau gyfeiriad gydag un ohonynt yn ffotograff cyffredinol yn cwmpasu'r strwythur cyfan. Pebai'r strwythur yn un cymhleth, dylid tynnu rhagor o luniau. Hefyd, gellir tynnu lluniau unrhyw fanylion, fel coflechau. Dylai'r rhain fod o eglurdeb cyn uched â phosib. Ar y ffurflen gofnodi dylid nodi nifer y delweddau, o ba gyfeiriad gwnaethoch eu tynny, a disgrifiad byr o bob un.

Rydym yn hynod ddiolchgar am unrhyw help rydych yn gallu gynnig gyda'n prosiect. Gellir lawrlwytho ffurflen ar gyfer cofnodi'r wybodaeth ysgrifenedig yma, ac mae modd derbyn unrhyw wybodaeth sydd gennym am gofebion yn eich ardal trwy anfon cais. Gellir cyflwyno canlyniadau a delweddau i'r prosiect yn ddigidol trwy eu hanfon i Robert.evans@heneb.co.uk. 01248 36695, neu eu cyflwyno i'r Ymddiriedolaeth ar ffurf copi caled.

Cydnabyddir eich help gyda'r prosiect, a phe baech eisiau help neu gyngor gyda'r gwaith cofnodi gellir cysylltu gyda Robert yn y cyfeiriad ebost uchod, neu trwy'r Ymddiriedolaeth.

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Gwynedd Archaeological Trust

First World War Memorial Recording - Guidance

The aim of the project is to obtain a photographic and brief description record of all memorials and structures built to honour the sacrifice of communities across Gwynedd and Anglesey during the First World War. As the memorials can vary a lot in character, anything from small memorials to large buildings, it is not possible to record them in an identical way. It is recommended that the following information is recorded, for any such memorials that you are familiar with:

1. *Name of memorial (structure or building).*
2. *Location and Grid Reference (NGR) if possible (this can be obtained either by GPS or from its location on an Ordnance Survey Map).*
3. *A description of the structure should be made, noting the materials used and any notable characteristics. It should not be necessary to transcribe any inscriptions and lists of names, as this should be clear from the photographs.*
4. *Photographs of the building / monumnet. A photograph of the structure or building from at least two directions should be taken, one of which should be a general shot that encompasses the entire structure. If the structure is complex, then more should be taken. A photograph can also be taken of any details, such as commemorative plaques. These should be of as high a resolution as possible. A note should be made on the record form of the number and direction of images taken, with a brief description of each.*

We are very grateful for any help that you may be able to offer us with our project. A suggested form for recording the written information can be downloaded here, and details of what information we hold on monuments within any area can be provided on request. All results and images can be submitted digitally to the project at Robert.evans@heneb.co.uk. 01248 366956, or submitted to the Trust in a hard copy format.

Full acknowledgement for your help with the project will be given, and Robert can be contacted at the above Email address, or through the Trust, for assistance and advice with regard to the recording.